

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N DDA

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 17 Mawrth, 2026.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr I.R. Buckley, C.A. Cave, B. Dodd, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, M.J.G. Morgan a N.C. Thomas.

Hefyd yn bresennol: O. Carroll (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro); Y Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau) a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Llesiant) a Dr. I.J. Johnson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd G. Bruce.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2026 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Loveluck-Edwards fuddiant personol yn Eitem Rhif 5 ar yr Agenda – Cynlluniau Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Amgylchedd a Thai 2026/27 – gan fod perthnasau'n derbyn pecynnau gofal cymdeithasol a chymorth teleofal. Cafodd y Cynghorydd esgusodeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

EITEM AGENDA 4. CYNLLUN CYFLENWI GRANT CYMORTH TAI 2026-2029 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid Cynllun Cyflenwi Grant Cymorth Tai 2026-2029 yn cael ei gymeradwyo.

(2) Y dylid Cynllun Gwariant Grant Cymorth Tai 2026-2027 yn cael ei gymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Canllawiau Grant Cymorth Tai (HSG) (Cymru).

(2) Er mwyn sicrhau bod Cynllun Gwariant HSG 2026-2027 yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol ag amodau'r Grant Cymorth Tai (HSG).

EITEM AGENDA 5. CYNLLUNIAU CYFARWYDDIAETH Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A'R AMGYLCHEDD A THAI 2026/27 (YN AMLINELLU GWEITHGAREDDAU BLWYDDYN 2, MESURAU PERFFORMIAD A THARGEDAU PERFFORMIAD CYSYLLTIEDIG) I GYFLAWNI DYFFRYN 2030, CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR 2025-30 (CGC/CAT) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid Cynlluniau Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol (Atodiad A) a'r Gwasanaethau Amgylchedd a Thai (Atodiad B), a'r mesurau a'r targedau perfformiad cysylltiedig ar gyfer 2026/27 sydd ynddynt, yn cael eu cymeradwyo.

Rheswm dros yr argymhelliad

Sicrhau bod y gweithgareddau a gynlluniwyd, y mesurau cysylltiedig, a'r targedau perfformiad ar gyfer Cyfarwyddiaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Amgylchedd a Thai, fel y manylir yn y Cynlluniau, yn berthnasol, ac ynghyd â'r tair Cynllun Cyfarwyddiaeth arall, yn dod yn brif fodd y caiff perfformiad yn erbyn y Dyffryn 2030 ei fonitro a'i fesur yn ystod 2026/2027.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD YMATEB GORCHWYL A GORFFEN: GWASANAETHAU HAMDDEN [GWEITHGOR Y PWYLLGOR] –

ARGYMHELLWYD – Y dylid cyfeirio'r adroddiad a'r argymhellion ynddo at y Cabinet i'w hystyried a gofyn am ymateb ffurfiol gan gynnwys y camau nesaf y cytunwyd arnynt.

Rheswm dros yr argymhelliad

Cyflwyno'r canfyddiadau a'r argymhellion dilynol a luniwyd gan Grŵp Gwaith Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Byw'n Dda, ac a gytunwyd wedyn gan y Pwyllgor Craffu Byw'n Dda, i'w cymeradwyo.